



Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi (Dyfarniad Technegol)

MANYLEB

I'w haddysgu o 2022

I'w dyfarnu o 2024

Crynodeb o newidiadau

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen

DRAFT

Cynnwys

1. Trosolwg o'r cymhwyster	5
1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?	6
1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi (Dyfarniadau Technegol)	6
1.3 Amcanion y cymhwyster	6
1.4 Gofynion dysgu blaenorol	7
1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?	7
2. Cipolwg ar y fanyleb	8
2.1 Cynnwys y Pwnc	8
2.2 Trosolwg o'r asesu	8
2.3 Amcanion asesu	9
3. Unedau	10
3.1 Fformat yr unedau	10
3.2 Ymhelaethiad	10
Uned 1	11
Uned 2	17
Uned 3	21
4. Asesiadau	26
4.1 Asesiad Allanol (Uned 1)	26
4.2 Asesiad mewnol (Unedau 2 a 3)	26
4.3 Asesiad synoptig	26
4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr	27
4.5 Rheoli'r asesiadau	27
5. Orlau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso	28
5.1 Orlau Dysgu dan Arweiniad	28
5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso	28
6. Cofrestriadau	29
6.1 Cymeradwyo Canolfannau	29
6.2 Dulliau Cofrestru	29
Cofrestru ar gyfer unedau	29
Cofrestru ar gyfer y cymhwyster	30
Codau cofrestru	30
7. Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl	31
8. Trefniadau ailsefyll	32
8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio	32

8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio	32
8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau	32
9. Camymddwyn.....	33
9.1 Atal camymddwyn	33

DRAFT

1. Trosolwg o'r cymhwyster

Teitl y Cymhwyster	Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi
Math o Gymhwyster yr AA	Dyfarniad Technegol
RhC Ofqual	603/7017/8
Cod Cymhwyster CBAC	
Cod Disgownt yr AA	
Grŵp oedran cymeradwy	14+
Addysgu am y tro cyntaf	Medi 2022
Ardystio am y tro cyntaf	Haf 2024
Dogfennau Allweddol	Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Canllaw Gweinyddu
Canllawiau Addysgu	Canllaw Asesu Canllaw Cyflwyno Canllawiau Addysgu Uned 1 Canllawiau Addysgu Uned 2 Canllawiau Addysgu Uned 3

1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Bwriad cymwysterau CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr astudio pynciau galwedigaethol ar yr un pryd â chymwysterau TGAU a chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eraill. Bydd dysgwyr yn gwneud hyn yn rhan o raglen astudio eang.

Cawsant eu llunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed gan ganolbwyntio ar ddysgu mewn ffordd gymhwysol, h.y. caffael a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod yng nghyd-destun y sector neu'r pwnc. Mae ganddynt felly lawer o nodweddion gwaith real.

Mae'r cymwysterau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) ar gael mewn 9 maes pwnc. Ar y rhestr isod, mae unrhyw bynciau â * yn bodloni gofynion Ofqual a'r AA ar gyfer cymwysterau'r tabl perfformiad CA4.

- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Peirianeg
- Digwyddiadau
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch ac Arlwyo
- TGCh
- Celfyddydau Perfformio
- Busnes Adwerthu
- Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi.

1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi (Dyfarniadau Technegol)

Mae chwaraeon yn y DU wedi cael canlyniadau anhygoel yn ystod y blynyddoedd diweddar, gyda Thimau Olympaidd a Pharalympaidd Prydain yn gorffen yn ail yn y tablau medalau yn Rio 2016, a'r DU yn parhau i gynnal rhai o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf y byd. Mae UK Sport wedi nodi hyfforddi fel elfen allweddol i'r system perfformiad uchel yn y DU. Mae hyfforddi, ochr yn ochr â gwasanaethau allweddol eraill o ran cefnogi perfformiad megis Meddygaeth Chwaraeon a Gwyddor Chwaraeon, Ffordd o Fyw Perfformiad ac Ymchwil ac Arloesi, yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau llwyddiant parhaus athletwyr o Brydain.¹

1.3 Amcanion y cymhwyster

Lluniwyd y Dyfarniad Galwedigaethol mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion sydd am ddysgu am y sector galwedigaethol hwn a'i botensial o ran gyrfa neu astudio pellach. Mae ar ei fwyaf addas yn sylfaen i astudio pellach. Byddai unrhyw astudio pellach o'r fath yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin amrywiaeth o sgiliau arbenigol a chyffredinol a fyddai'n eu helpu wedyn i symud i fyd cyflogaeth.

¹ <https://www.uksport.gov.uk/>

1.4 Gofynion dysgu blaenorol

Er nad oes gofynion cofrestru ffurfiol, byddai'r sgiliau dysgu a'r doniau canlynol yn ddefnyddiol i ddysgwyr: hyfedredd sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd, rhywfaint o allu i weithio â chyfrifiaduron a chymhelliant i weithio'n annibynnol.

1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n cynnwys tair uned orfodol:

Uned	Teitl	Asesu	ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)
1	Ffitrwydd ar gyfer Chwaraeon	Allanol	48
2	Gwella Perfformiad mewn Chwaraeon	Mewnol	30
3	Egwyddorion Hyfforddi	Mewnol	42

2. Cipolwg ar y fanyleb

2.1 Cynnwys y Pwnc

Mae Uned 1 yn cyflwyno'r dysgwyr i addasiadau sy'n digwydd yn y corff ar ôl ymarfer corff, sut gall ymarfer arwain at welliannau o ran ffitrwydd, a chynllunio rhaglenni ymarfer. Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen er mwyn cynllunio rhaglenni ymarfer i wella ffitrwydd unigolion (tudalen 9).

Mae Uned 2 yn cyflwyno dysgwyr i sut gellir gwella rhannau gwahanol o berfformiad mewn chwaraeon. Nod yr uned hon yw rhoi i ddysgwyr y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen er mwyn gallu dadansoddi perfformiad mewn chwaraeon, nodi cryfderau a gwendidau a chynllunio ar gyfer gwella (tudalen 15).

mae Uned 3 yn cyflwyno i ddysgwyr yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â hyfforddi chwaraeon. Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r dysgwyr allu cynllunio, arwain a gwerthuso sesiwn hyfforddi mewn gweithgaredd chwaraeon (tudalen 19).

2.2 Trosolwg o'r asesu

Crynodeb o'r Asesu	
Uned 1: Ffitrwydd ar gyfer Chwaraeon Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 20 munud 40% o'r cymhwyster	80 marc
Fformat: cwestiynau ag atebion byr ac estynedig yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio deunydd symbylu i ymateb i gwestiynau.	
Uned 2: Gwella Perfformiad mewn Chwaraeon Asesiad dan Reolaeth: tua 4 awr 25% o'r cymhwyster	50 marc
Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau. Bydd hwn ar gael o wefan ddiogel CBAC.	
Uned 3: Egwyddorion Hyfforddi Asesiad dan Reolaeth: tua 6 awr 35% o'r cymhwyster	70 marc
Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau. Bydd hwn ar gael o wefan ddiogel CBAC.	

2.3 Amcanion asesu

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o'r fanyleb.

AA2

Defnyddio sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.

AA3

Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau priodol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac am y cymhwyster yn gyffredinol:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	20%	14%	6%	40%
Uned 2	2%	10%	13%	25%
Uned 3	3%	26%	6%	35%
Pwysoliad cyffredinol	25%	50%	25%	100%

3. Unedau

3.1 Fformat yr unedau

Teitl yr uned	Crynodeb fer o gynnwys yr uned.
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA)	Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr. Dyrannwyd oriau dysgu dan arweiniad i bob uned i gefnogi'r gwaith cyflwyno. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn, ac argymhelliad felly yw nifer yr oriau i bob uned.
Cyd-destun galwedigaethol	Sail resymegol alwedigaethol ar gyfer cynnwys yr uned.
Trosolwg o'r uned	Crynodeb o gynnwys yr uned. Y rhan hon sy'n rhoi'r uned yn ei chyd-destun ac yn tynnu sylw at ddiben yr hyn y mae'r uned yn ei ddysgu.
Testunau	Yn cynnwys rhestr o'r testunau y mae'r uned yn ymdrin â nhw.
Asesu	Crynodeb o ddull asesu'r uned.

3.2 Ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- mae 'dylai dysgwyr wybod' wedi'i ddefnyddio ar gyfer adalw ffeithiau fel deddfwriaeth a diffiniadau
- mae 'dylai dysgwyr wybod a deall' wedi'i ddefnyddio ar gyfer mwyafrif cynnwys yr uned lle mae angen i'r wybodaeth arwain at ymdeimlad o ddealltwriaeth
- mae 'dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' wedi'i ddefnyddio pan fo cyfaint y cynnwys yn eithaf helaeth ac nid oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd yn fanwl
- mae 'Dylai dysgwyr allu' wedi'i ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth at senario neu sefyllfa ymarferol.

Cyflwynir cynnwys y pwnc mewn 3 uned, ac mae pob un wedi'i hisrannu yn feysydd testun clir a phenodol. Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn nodi'r cynnwys sydd i'w astudio. Mae'r golofn ar y dde yn darparu ymhelaethiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y dylai dysgwyr eu datblygu yn y maes hwn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy golofn yn rhoi cynnwys llawn y fanyleb. Ni awgrymir unrhyw hierarchaeth gan drefn cyflwyno'r cynnwys, ac nid yw'r drefn ei hun yn awgrymu trefn addysgu benodol.

Mae'r ymhelaethiad yn y golofn ar y dde yn cwmpasu'r holl gynnwys sy'n cael ei asesu ar gyfer yr adran berthnasol, oni bai ei fod yn nodi 'e.e.', 'gan gynnwys' neu 'megis'. Yn yr achosion hyn, bydd yr ymhelaethiad yn rhestru cynnwys perthnasol y dylid ei drafod ymhellach mewn ffordd briodol, gan ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr. Mae defnyddio'r geiriau 'gan gynnwys' yn dangos

gorfodaeth (h.y. gellid gosod cwestiwn yn benodol ar yr agwedd honno). Cyfarwyddyd yn unig yw'r defnydd o'r geiriau 'e.e.' neu 'megis', a gellid dewis rhywbeth yn lle'r hyn a nodir.

Uned 1

Teitl yr uned	Ffitrwydd ar gyfer Chwaraeon
Cod cofrestru'r uned	
ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)	48
Cyd-destun galwedigaethol	Yn y byd iechyd a ffitrwydd, mae angen i wyddonwyr chwaraeon, ffisiotherapyddion, hyfforddwyr ac athletwyr ddeall sut mae'r corff yn gweithio a gwybod sut i addasu a gwella systemau, adeileddau a swyddogaethau cymhleth y corff. Bydd deall bod angen bod yn ffit ar gyfer chwaraeon yn gwella ffitrwydd yr unigolyn. Gall wedyn fwynhau gweithgareddau yn ogystal â gwella techneg a llesiant seicolegol.
Trosolwg o'r uned	Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i addasiadau sy'n digwydd yn y corff ar ôl ymarfer corff, sut gall ymarfer arwain at welliannau o ran ffitrwydd, a chynllunio rhaglenni ymarfer. Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen er mwyn cynllunio rhaglenni ymarfer i wella ffitrwydd unigolion.
Testunau	1.1 Adeiledd, swyddogaethau ac addasiadau i systemau'r corff mewn perthynas â chwaraeon, ymarfer corff a gweithgarwch corfforol 1.2 Pwysigrwydd cydrannau ffitrwydd ar gyfer gweithgareddau corfforol gwahanol 1.3 Deall rôl ymarfer wrth wella ffitrwydd.
Asesu	Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol drwy arholiad ysgrifenedig. Hyd: 1 awr 20 munud Nifer y marciau: 80 Fformat: cwestiynau ag atebion byr ac estynedig yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio deunydd symbylu i ymateb i gwestiynau. Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster.

1.1 Adeiledd, swyddogaethau ac addasiadau i systemau'r corff mewn perthynas â chwaraeon, ymarfer corff a gweithgarwch corfforol

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

- 1.1.1 Adeiledd systemau'r corff
- 1.1.2 Swyddogaethau systemau'r corff
- 1.1.3 Effeithiau tymor byr ymarfer corff ar systemau'r corff
- 1.1.4 Addasiadau tymor hir ymarfer corff ar systemau'r corff.

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.1.1 Adeiledd systemau'r corff	Dylai dysgwyr wybod am adeileddau'r systemau canlynol yn y corff: • system gardiofasgwlar – lleoliad yr atria, fentriglau, vena cava, aorta, rhydweli ysgyfeiniol, gwythïen ysgyfeiniol • system gardioresbiradol – lleoliad y laryncs, tracea, broncws, bronciolynnau, alfeoli, ysgyfaint, llengig, cyhyrau rhyngasennol • cymalau synofaidd i gynnwys pelen a chrau, cymal colfach a chymal cylchdroi • system gyhyrol-sgerbydol – lleoliad y prif grwpiau o gyhyrau (deuben, triphen, deltoid, pectoralis mwyaf, pedwarpen, llinynnau gar, gastrocnemiws, trapeziws, latissimus dorsi, abdomenol, gluteus maximus) a'r prif esgyrn (creuan, asennau, sgapwla, hwmerws, radiws, wlna, pelfis, asgwrn y forddwyd, padell pen-glin, tibia, ffibwla, asgwrn cefn) • mathau o ffibrau cyhyrol: araf/cyflym math I, math II.
1.1.2 1.1.2 Swyddogaethau systemau'r corff	Dylai dysgwyr wybod a deall beth yw swyddogaethau'r systemau canlynol yn y corff: • system gardiofasgwlar (system cylchrediad systemig) – cludo maetholion ac ocsigen, cael gwared ar gynhyrchion gwastraff, rheoli tymheredd y corff (fasoymlediad a fasogyfyngiad) a phwysedd gwaed • system gardioresbiradol (system cylchrediad ysgyfeiniol) – mewnanadlu ocsigen ac allanadlu carbon deuocsid a dŵr drwy anadlu, cyfnewid nwyol, trylediad • system gyhyrol-sgerbydol – mathau o symudiad (plygu, estyn, atsymud, allsymud, cylchdroi, cylchsymud), gweithrediad gwrthweithiol ar y pen-glin a'r pen-elin (synergydd, sefydlogydd, prif symudwr/gweithydd, gwrthweithydd), cydfan cyhyrau, amddiffyniad ac adeiledd a siâp y corff • nodweddion y mathau o ffibr cyhyrau – araf/cyflym math I, math II, yn gysylltiedig â chwaraeon a gweithgareddau aerobig ac anaerobig • nodweddion systemau egni – ATP-PC, aerobig ac anaerobig mewn perthynas â'r maetholion a ddefnyddir a chynhyrchion gwastraff a gynhyrchir ar wahanol ddwyseddau a hyd.

1.1.3 Effeithiau tymor byr ymarfer corff ar systemau'r corff	Bydd angen i'r dysgwyr wybod a deall yr effeithiau tymor byr canlynol y mae ymarfer corff yn eu cael ar systemau'r corff, sy'n deillio o lefelau gwahanol o ddwyseddau ymarfer corff: • system gardiofasgwlar – gan gynnwys newidiadau mewn allbwn cardiaidd, cyfradd curiad y galon, cyfaint strôc a thymheredd • systemau egni, creu cynhyrchion gwastraff • system gyhyrol-sgerbydol: newidiadau i elastigedd cyhyrau a chludo maetholion i'r cyhyrau sy'n gweithio • system gardioresbiradol gan gynnwys newidiadau mewn amllder/cyfradd anadlu, cyfaint cyfnewid ac awyru y munud.
1.1.4 Addasiadau tymor hir ymarfer corff ar systemau'r corff	Dylai dysgwyr wybod a deall yr addasiadau tymor hir ar systemau'r corff sy'n deillio o ymarfer â dwysedd, hyd a dull gwahanol: • system gardiofasgwlar: newidiadau i werthoedd cardiaidd, capilareiddio, pwysedd gwaed, hypertroffedd gardiaidd • systemau egni; trothwyon systemau egni a pharthau ymarfer • system gyhyrol-sgerbydol i gynnwys cynnydd yn nwysedd esgyrn, hypertroffedd, elastigedd cyhyrau • system gardioresbiradol: newidiadau i werthoedd resbiradol a chapilareiddio, hypertroffedd cyhyrau.

Pwysigrwydd cydrannau ffitrwydd ar gyfer gweithgareddau corfforol gwahanol

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

1.2.1 Y cydrannau iechyd a ffitrwydd sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau corfforol gwahanol

1.2.2 Mesur iechyd a ffitrwydd

1.2.3 Pam mae profion ffitrwydd yn bwysig

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.2.1 Y cydrannau iechyd a ffitrwydd sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau corfforol gwahanol	Dylai dysgwyr wybod a deall y cydrannau iechyd a ffitrwydd, eu diffiniadau ac enghreifftiau o weithgareddau chwaraeon cysylltiedig. Cydrannau iechyd a ffitrwydd: • ystwythder • cydbwysedd • dygnwch cardiofasgwlar • cydsymud • hyblygrwydd • dygnwch cyhyrol • cryfder cyhyrol • pŵer a chyflymder • amser adweithio.
1.2.2 Mesur iechyd a ffitrwydd	Dylai dysgwyr wybod prawf ffitrwydd sy'n gysylltiedig â phob cydran o iechyd a ffitrwydd: • ystwythder – ystwythder Illinois • cydbwysedd – safiad storc • dygnwch cardiofasgwlar – prawf ffitrwydd aml-gam/rhediad 12 munud Cooper • cydsymud – taflu â'r ddwy law am yn ail • hyblygrwydd – eistedd ac ymestyn • dygnwch cyhyrol – eisteddiadau/byrfreichiau • cryfder cyhyrol – cryfder gafael y llaw/uchafswm ailadroddiad • pŵer – prawf naid fertigol, naid hir stond • amser adweithio – gollwng pren mesur • cyflymder – sbrint 30m/50m. Bydd angen i'r dysgwyr wybod a deall pwysigrwydd dilysrwydd a dibynadwyedd profi a'r effaith a gaiff hyn ar allu cymharu â chanlyniadau profion blaenorol neu ddata normadol.

1.2.3 Pam mae profion ffitrwydd yn bwysig	Bydd angen i'r dysgwyr wybod a deall pam mae profion ffitrwydd yn bwysig a rôl profion ffitrwydd wrth wella perfformiad. Y rhesymau dros brofi yw: • cymharu yn erbyn data normadol • nodi cryfderau a gwendidau perfformiwr • darparu llinell sylfaen ar gyfer cymariaethau yn y dyfodol • darparu gwybodaeth bwysig i'r hyfforddwr • darparu gwybodaeth sy'n cynorthwyo wrth ddewis tîm • gosod nodau neu dargedau.
--	---

1.3 Rôl ymarfer wrth wella ffitrwydd

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

1.3.1 Ffactorau i'w hystyried cyn ymarfer

1.3.2 Egwyddorion ymarfer

1.3.3 Dulliau ymarfer

1.3.4 Gosod targedau

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.3.1 Ffactorau i'w hystyried cyn ymarfer	Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau canlynol y mae'n rhaid eu hystyried cyn dechrau unrhyw ymarfer: - ffactorau personol – iechyd, ffitrwydd, oedran, rhywedd, ffordd o fyw, amser sydd ar gael ar gyfer ymarfer a chost ymarfer - ffactorau amgylcheddol – cyfleusterau a chyfarpar sydd ar gael ac yn ofynnol ar gyfer ymarfer - adeiledd a swyddogaeth ymgynhesu a dadgynhesu.
1.3.2 Egwyddorion ymarfer	Bydd angen i'r dysgwyr wybod a deall yr egwyddorion ymarfer canlynol a sut dylid eu cymhwyso i raglenni ymarfer gwahanol: - penodoldeb - gorlwytho (dwysedd, amledd, hyd) - dilyniant - amrywiant (atal cyrraedd gwastadedd a diflaster).
1.3.3 Dulliau ymarfer	Dylai'r dysgwyr wybod am y dulliau canlynol o ymarfer a deall y cydberthnasau rhwng y dulliau o ymarfer a'r cydrannau o iechyd a ffitrwydd: - ymarfer di-dor - ymarfer ysbeidiol – ymarfer pwysau, ymarfer cylchol, ymarfer plyometrig, ymarfer hyblygrwydd ac ymarfer fartlek.
1.3.4 Gosod targedau	Dylai dysgwyr wybod a deall y rhesymau pam mae gosod targedau tymor byr a nodau tymor hir o fudd i berfformiwr cyn dechrau unrhyw raglen ymarfer. Yn cynnwys: - manteision gosod nodau ar iechyd, llesiant a pherfformiad - ymlyniad at ymarfer corff - mwyr o ganolbwyntio ar ymarfer gan y perfformiwr - y perfformiwr yn gwneud mwy o ymdrech yn ystod ymarfer - mwyr o ganolbwyntio gan y perfformiwr - mwyr o gymhelliant gan y perfformiwr - amcanion gosod targedau: cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS).

Uned 2

Teitl yr uned	Gwella Perfformiad Chwaraeon
Cod cofrestru'r uned	
ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)	30
Cyd-destun galwedigaethol:	Ym mhob agwedd ar berfformiad mewn chwaraeon, mae cyfranogwyr yn ceisio gwella. Mae'r gallu i wybod ble rydych chi fel perfformiwr, ble rydych chi'n anelu i fod a sut i gyrraedd yno yn dair agwedd hanfodol ar lwyddiant a gwella. Mae hyfforddwyr chwaraeon, ffisiotherapyddion, seicolegwyr chwaraeon, gwyddonwyr chwaraeon, dadansoddwyr a hyfforddwyr cryfder a chyflyru i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo unigolyn i wella ei berfformiad.
Trosolwg o'r uned	Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i sut gellir gwella meysydd gwahanol o berfformiad mewn chwaraeon. Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i'r dysgwyr allu dadansoddi perfformiad mewn chwaraeon, nodi cryfderau a gwendidau a chynllunio ar gyfer gwella.
Testunau	2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon 2.2 Dadansoddi perfformiad mewn chwaraeon
Asesu	Asesir yr uned hon yn fewnol drwy asesiad dan reolaeth. Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 25% at radd gyffredinol y cymhwyster. Hyd: 4 awr Nifer y marciau: 50 Fformat: Bydd briff yr aseiniad, a fydd yn cynnwys senario a sawl tasg, yn aros yr un fath ar hyd oes y fanyleb a bydd yn cael ei rannu â chanolfannau mewn pecyn Asesu drwy Wefan Ddiogel CBAC. Nid oes bwriad newid y tasgau yn ystod oes y cymhwyster. Os bydd ymgeiswyr yn dewis ailsefyll yr uned hon yn ddiweddarach, rhaid iddyn nhw ddewis camp wahanol i'w dadansoddi.

2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

2.1.1 Ffactorau ffisiolegol sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon

2.1.2 Ffactorau seicolegol sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon

2.1.3 Ffactorau technegol sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.1.1 Ffactorau Ffisiolegol sy'n Effeithio ar Berfformiad mewn Chwaraeon	Bydd angen i ddysgwyr wybod a deall y ffactorau ffisiolegol canlynol a sut maent yn effeithio ar berfformiad: - ffordd o fyw – deiet a maeth, hydradiad, paratoi ac adfer, patrymau cysgu, alcohol, ysmygu, cymryd cyffuriau anghyfreithlon, oedran, iechyd a ffitrwydd - cyfansoddiad y corff – mathau o gyrff, pwysau'r corff, braster a chyhyrau'r corff - cydrannau iechyd a ffitrwydd – dygnwch cardiofasgwlar, dygnwch cyhyrol, hyblygrwydd, cryfder cyhyrol ac ystwythder, cydbwysedd, cydsymud, amser adweithio, pŵer a chyflymder.
2.1.2 Ffactorau seicolegol sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon	Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau seicolegol canlynol a sut maent yn effeithio ar berfformiad: - cymhelliant – diffiniad a mathau (cynhenid ac anghynhenid) - gorbryder – achosion a symptomau: - gorbryder somatig (effeithiau corfforol) – e.e. cynnydd yng nghyfradd curiad y galon, cyfradd anadlu uwch, chwysu, cyfog a philipalod yn y stumog - gorbryder gwybyddol (effeithiau meddyliol) – trafferth canolbwytio, mwy o feddyliau negyddol, a phoeni mwy am bethau.
2.1.3 Ffactorau technegol sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon	Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau technegol canlynol a sut maent yn effeithio ar berfformiad: - techneg – gan gynnwys diffiniad a manteision gwella techneg ar gyfer perfformwyr chwaraeon (canlyniadau gwell, camau gweithredu sy'n fwy cyson, effeithlon ac effeithiol, mwy o opsiynau ar gael yn ystod perfformiad a llai o risg o anaf) - strategaethau/cynlluniau gêm – gan gynnwys diffiniad a ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau ynghylch strategaethau/cynlluniau gêm (cryfderau a gwendidau perfformiwr chwaraeon neu dîm a gwrthwynebwyr, dewis chwaraewyr, ffactorau allanol megis y tywydd neu gyflwr/math o arwyneb chwarae, pwysigrwydd canlyniad) - tactegau – unigolyn a thîm – gan gynnwys diffiniad, enghreifftiau o dactegau y gellid eu defnyddio i hwyluso strategaeth/cynllun gêm mewn chwaraeon tîm neu unigol (enghreifftiau o sut gellir newid tactegau yn ystod perfformiad mewn chwaraeon mewn ymateb i sefyllfa o gêm neu ras sy'n newid, anaf i chwaraewyr neu newidiadau mewn ffactorau allanol megis y tywydd neu'r amodau chwarae).

2.2 Dadansoddi perfformiad mewn chwaraeon

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

- 2.2.1 Mesur y ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon
- 2.2.2 Dadansoddi data perfformiad
- 2.2.3 Strategaethau ar gyfer gwella perfformiad mewn chwaraeon

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.2.1 Mesur y ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon	Dylai dysgwyr allu nodi'r prawf priodol i fesur cydrannau ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol. Ffisiolegol: • profion ffitrwydd i fesur ystwythder, cydbwysedd, amser adweithio, cydsymud, pŵer, cyflymder, cryfder, hyblygrwydd a dygnwch • profion/sgrinio iechyd i fesur cyfansoddiad y corff, pwysedd gwaed a chyfradd curiad y galon • holiadur ffordd o fyw • calorïau cydbwysedd egni, maeth a hydradu. Seicolegol: • arsylwadau gweledol neu arsylwadau fideo i asesu lefelau cymhelliant cyn ac yn ystod perfformiad mewn chwaraeon • cyfweiliadau gyda pherfformwyr i asesu lefelau cymhelliant a gorbryder cyn ac yn ystod perfformiadau mewn chwaraeon • dyddiadur wedi'i gwblhau gan berfformiwr cyn ac ar ôl perfformiadau mewn chwaraeon ynghylch lefelau gorbryder a chymhelliant • holiaduron i fesur gorbryder, er enghraifft Prawf Gorbryder Cystadlaethau Chwaraeon (SCAT) neu Brawf Cystadleuaeth Illinois sy'n defnyddio'r Rhestr Gorbryder Cyflwr Cystadleuol (csai-2). Technegol: • arsylwadau gweledol neu arsylwadau fideo i asesu lefel technegau perfformiad mewn chwaraeon • cyfweiliadau gyda pherfformwyr cyn perfformiad mewn chwaraeon i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r strategaethau/cynlluniau gêm sydd ar waith a thactegau fydd yn cael eu defnyddio i hwyluso strategaethau/cynlluniau gêm • arsylwadau gweledol neu arsylwadau fideo i nodi ac asesu'r tactegau a ddefnyddiwyd yn ystod perfformiad mewn chwaraeon • cyfweiliadau gyda pherfformwyr ar ôl perfformiad mewn chwaraeon i asesu lefel llwyddiant strategaeth/cynllun gêm a thactegau a ddefnyddiwyd yn ystod perfformiad.

2.2.2 Dadansoddiad o ddata perfformiad ar gyfer gwella	Dylai dysgwyr wybod a deall sut i ddadansoddi'r meysydd i'w gwella mewn perfformiad ffisiolegol, seicolegol a thechnegol drwy ddefnyddio: • dadansoddi ansoddol a meintiol • goddrychedd a gwrthrychedd (cryfderau a gwendidau) • tablau amrediad normadol • dibynadwyedd a dilysrwydd • dadansoddiad fideo • dadansoddiad nodiannol.
2.2.3 Strategaethau ar gyfer gwella perfformiad mewn chwaraeon	Dylai dysgwyr wybod a deall y strategaethau canlynol: • rhaglen ymarfer – dewis dulliau ymarfer priodol (ymarfer ysbeidiol a di-dor) a defnyddio parthau ymarfer (aerobig ac anaerobig) • cynllun maeth – gan gynnwys deietau penodol neu arbennig (llwytho carbohydradau neu brotein uchel) • dulliau adfer – dadgynhesu, bath iâ, tylino'r corff • delweddaeth/ymarfer meddyliol • hunansiarad • gosod nodau – targedau tymor byr a nodau tymor hir gan ddefnyddio CAMPUS • adborth – cynhenid ac anghynhenid, gwybodaeth am berfformiad (KP) a gwybodaeth am ganlyniadau (KR) • hyfforddi – mathau o gyfarwyddyd (gweledol, geiriol, mecanyddol a chyfarwyddyd â llaw), mathau o ymarfer (ymarfer y cyfan, ymarfer rhannau, ymarfer sefydlog ac ymarfer amrywiol).

Uned 3

Teitl yr uned	Egwyddorion Hyfforddi
Cod cofrestru'r uned	
ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)	42
Cyd-destun galwedigaethol	O fewn y byd chwaraeon, mae galw parhaus am arweinwyr chwaraeon a hyfforddwyr, yn enwedig ar lawr gwlad. Mae'n rhaid i hyfforddwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i arwain gweithgareddau chwaraeon yn llwyddiannus er mwyn ysbrydoli a llywio datblygiad perfformwyr talentog.
Trosolwg o'r uned	Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â hyfforddi chwaraeon. Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol i'r dysgwyr allu cynllunio, arwain a gwerthuso sesiwn hyfforddi mewn gweithgaredd chwaraeon. mae'r uned hon yn synoptig ac yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn Unedau 1 a 2. Mae angen i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ganlynol a gafwyd yn Uned 1: • cydrannau iechyd a ffitrwydd • ffactorau i'w hystyried cyn ymarfer • egwyddorion ymarfer • dulliau ymarfer • gosod targedau a chyfuno hyn â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn Uned 2: • ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol sy'n effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon • strategaethau ar gyfer gwella perfformiad mewn chwaraeon • dadansoddi data perfformiad er mwyn datblygu rhaglen ymarfer a'i rhoi ar waith yn Uned 3.
Testunau	3.1 Gwybodaeth am sgiliau a chyfrifoldebau hyfforddwyr chwaraeon 3.2 Deall y broses hyfforddi 3.3 Sut i hyfforddi 3.4 Adolygu perfformiad hyfforddi

Asesu

Asesir yr uned hon yn fewnol drwy asesiad dan reolaeth. Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 35% at radd gyffredinol y cymhwyster.

Hyd: 6 awr

Nifer y marciau: 70

Fformat: Bydd briff yr aseiniad, a fydd yn cynnwys senario a sawl tasg, yn aros yr un fath ar hyd oes y fanyleb a bydd yn cael ei rannu â chanolfannau mewn pecyn Asesu drwy Wefan Ddiogel CBAC. Nid oes bwriad newid y tasgau yn ystod oes y cymhwyster. Os bydd ymgeiswyr yn dewis ailsefyll yr uned hon yn ddiweddarach, rhaid iddyn nhw ddewis camp wahanol i'w hyfforddi.

DRAFT

3.1 Gwybodaeth am sgiliau a chyfrifoldebau hyfforddwr chwaraeon

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

3.1.1 Sgiliau hyfforddi

3.1.2 Cyfrifoldebau hyfforddwr

Cynnwys	Ymhelaethiad
3.1.1 Sgiliau hyfforddi	Dylai dysgwyr wybod a deall y sgiliau canlynol sydd eu hangen i fod yn hyfforddwr effeithiol: • y gallu i addasu • sgiliau arsylwi – yr hyn sy'n gweithio'n dda, pwy sy'n llwyddiannus, yr hyn sydd angen ei newid, adborth • cyfathrebu effeithiol – geiriol a dieiriau • grymuso – hunanhyder, cymhelliant, gwerthoedd, amrywiaeth, mwynhad a chyflawniad • gwybodaeth am weithgaredd chwaraeon • trefnu – adnoddau, cyfranogwyr, cyfleusterau, amseru a chynllunio.
3.1.2 Cyfrifoldebau hyfforddwr	Dylai dysgwyr wybod a deall y cyfrifoldebau canlynol sydd eu hangen i fod yn hyfforddwr effeithiol: • iechyd a diogelwch • ymddygiad proffesiynol • asesu risg – cyfleusterau, cyfarpar, cyfranogwyr, rheolau/cyfreithiau • diogelu.

3.2 Deall y broses hyfforddi

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

3.2.1 Bodloni anghenion y cyfranogwyr mewn sesiynau hyfforddi

3.2.2 Cydrannau sesiwn hyfforddi

3.2.3 Cynllunio sesiwn hyfforddi

Cynnwys	Ymhelaethiad
3.2.1 Bodloni anghenion y cyfranogwyr mewn sesiynau hyfforddi	Dylai dysgwyr allu adnabod anghenion cyfranogwyr wrth gynllunio a chyflawni sesiwn hyfforddi a dylent ystyried y canlynol: • gallu, oedran, rhywedd • adolygu perfformiadau cystadleuol, cynhenid ac anghynhenid, gwybodaeth am berfformiad (KP) a gwybodaeth am ganlyniadau (KR) a sesiynau blaenorol • ystyried gweithgareddau priodol, gan ganolbwyntio ar fathau o gyfarwyddyd, mathau o ymarfer a'r camau dysgu perthnasol.
3.2.2 Cydrannau sesiwn hyfforddi	Dylai dysgwyr wybod a deall y cydrannau canlynol o sesiwn hyfforddi: • cynhesu a ddylai gynnwys gweithgareddau sy'n cynyddu'r gyfradd pwls ac ymestyn a gall hefyd gynnwys driliau datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â nodau ac amcanion • sgiliau a driliau • trosglwyddo a dilyniant • elfennau ac ymarfer cyflyredig/timau bach/cystadleuol • dadgynhesu a ddylai gynnwys gweithgareddau sy'n gostwng y gyfradd pwls ac ymestyn.
3.2.3 Cynllunio sesiwn hyfforddi	Dylai dysgwyr allu cynllunio sesiwn hyfforddi sy'n cynnwys: • nodau ac amcanion y sesiwn • gofynion iechyd a diogelwch y sesiwn i gynnwys asesiad risg • adnabod anghenion y grŵp gan gynnwys gwybodaeth dechnegol a phwyntiau hyfforddi • dewis gweithgareddau priodol, gan ganolbwyntio ar fathau o gyfarwyddyd, mathau o ymarfer a'r camau dysgu perthnasol • yr adnoddau sydd eu hangen.

3.3 Sut i hyfforddi

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes canlynol:

3.3 Dangos sgiliau a chyfrifoldebau hyfforddi

Cynnwys	Ymhelaethiad
3.3 Dangos sgiliau a chyfrifoldebau hyfforddi	Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau a chyfrifoldebau hyfforddi gan gynnwys: • iechyd a diogelwch gan gynnwys cyfleusterau, cyfarpar, nifer y cyfranogwyr a gofod • cyflawni nodau ac amcanion cynllun y sesiwn • bodloni anghenion cyfranogwyr yn ystod y sesiwn gan gynnwys y gallu i addasu, rhoi gwybodaeth dechnegol a phwyntiau hyfforddi ac adborth.

3.4 Adolygu perfformiad hyfforddi

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

3.4.1 Adolygu sesiwn hyfforddi

3.4.2 Cynllunio datblygiad

Cynnwys	Ymhelaethiad
3.4.1 Adolygu sesiwn hyfforddi	Dylai dysgwyr wybod a deall sut i adolygu sesiwn hyfforddi gan gynnwys: • Dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) • defnyddio data ansoddol a meintiol i lywio'r adolygiad • i ba raddau y cyflawnwyd nodau ac amcanion y sesiwn. Defnyddio ffynonellau adborth gwahanol i lywio'r adolygiad (adborth yr aseswr, adborth cyfranogwr, myfyrw personol, deunydd fideo).
3.4.2 Cynllunio datblygiad	Dylai dysgwyr wybod a deall sut i wella perfformiad hyfforddi gan ddefnyddio'r canlynol: • cynllun datblygu i ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella a nodwyd • dulliau gwella a all gynnwys – cael mwy o brofiad, cwblhau cyrsiau achrededig, arsylwi arfer da a chynyddu gwybodaeth bynciol.

4. Asesiadau

4.1 Asesiad Allanol (Uned 1)

Arholiad allanol sydd ar gael ym mis Ionawr a Mai/Mehefin bob blwyddyn (asesiad cyntaf ym mis Ionawr 2024) yw dull asesu Uned 1.

Bydd pob arholiad allanol yn:

- cael ei osod a'i farcio gan CBAC
- cynnwys papur 1 awr, 20 munud o hyd
- asesu cynnwys o bob testun yn yr uned ym mhob cyfres
- cynnwys 80 marc
- yn cynnwys nifer cytbwys o gwestiynau atebion byr ac estynedig, yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol
- defnyddio'r berfau gorchymyn ar y rhestr yn y Canllaw Asesu (Pennod 4) yn unig
- cael ei raddio Lefel 1 Llwyddiant, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Rhagoriaeth*.

Asesir yr holl gynnwys ym mhob maes testun dros rychwant oes y fanyleb. Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir wedyn fel y sail ar gyfer marcio'r papurau arholiad.

I asesiadau allanol, rhaid i ganolfannau ddilyn dogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*, y mae copi ohoni i'w gweld yn Saesneg ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk) ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

4.2 Asesiad mewnol (Unedau 2 a 3)

Asesir Unedau 2 a 3 drwy asesiad dan reolaeth, ac fe'u cyflwynir i'w cymedroli'n allanol. Gellir cyflwyno Unedau 2 a 3 ym mis Ionawr a Mai bob blwyddyn (cyflwyniad cyntaf ym mis Ionawr 2023). Rhaid i ganolfannau ddilyn y cyfarwyddiadau ar redeg asesiadau dan reolaeth sydd i'w gweld yn y Canllaw Gweinyddu ac ym mhob Canllaw Uned. I gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn, dylai canolfannau fod â pholisi asesiad dan reolaeth ar waith (y gall fod yn rhan o bolisi Asesiad Di-arholiad y ganolfan); bydd y polisi hwn yn cael ei wirio yn rhan o broses gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

4.3 Asesiad synoptig

Uned synoptig yw Uned 3 sy'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r profiad a feithrinwyd ganddynt drwy Unedau 1 a 2 (gweler tudalen 19 am fanylion).

4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr

Mae Pecynnau Asesu ar gyfer ymgeiswyr ac aseswyr i'w cael ar y wefan ddiogel i'w lawrlwytho gan ganolfannau. Ni ddylai'r Pecynnau Ymgeiswyr fod ar gael i'r ymgeiswyr tan ddechrau'r asesiad sef yn ystod mis Medi pob blwyddyn academiaidd. Mae Deunyddiau Asesu Enghreifftiol i'w cael ar wefan cbac.co.uk.

4.5 Rheoli'r asesiadau

Mae'n ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal y drefn asesu mewnol yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol a'r Canllaw Gweinyddu ym Mhennod 3. Pedwar maes sy'n cael eu rheoli: goruchwyliaeth, cyfarwyddyd, adnoddau a chydweithio. Mae'r canllaw uned cyfatebol yn cynnwys manylion penodol i bob uned.

5. Orlau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

5.1 Orlau Dysgu dan Arweiniad

Mae orlau dysgu dan arweiniad (ODA) yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu oruchwylwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwylwr neu arolygwr.

Cyfanswm yr Orlau Dysgu dan Arweiniad sydd wedi'u neilltuo i'r cymhwyster hwn yw 120 o orlau.

Caiff orlau dysgu dan arweiniad eu dyrannu i bob uned i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno yn y ganolfan. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn ac argymhelliad yn unig felly yw nifer yr orlau dysgu dan arweiniad i bob uned.

5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn orlau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr orlau dysgu dan arweiniad ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

180 o orlau yw'r cyfanswm amser cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- 120 o orlau o ddysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 60 o orlau o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

6. Cofrestriadau

6.1 Cymeradwyo Canolfannau

Er mwyn cynnig ein cymwysterau, mae'n rhaid i ganolfan gael ei chymeradwyo fel canolfan gan CBAC. Mae'r broses gymeradwyo yn cynnwys llenwi'r ffurflen(ni) cais perthnasol ac asesiad o allu'r ganolfan i fodloni gofynion CBAC a rhai perthnasol y CGC.

Os yw eich canolfan eisoes yn cynnig Cymwysterau Cyffredinol ac wedi derbyn rhif canolfan (NCN), darllenwch Amodau i Ganolfannau Cofrestredig CBAC a chysylltwch â ni i ofyn am ffurflen gais.

Os ydych chi'n sefydliad newydd, darllenwch y dogfennau canlynol cyn cysylltu â ni i drafod eich canolfan arfaethedig:

- Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy CGC
- Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau CGC
- Amodau i Ganolfannau Cofrestredig CBAC.

Os hoffai eich canolfan gyflwyno cofrestriadau a chithau heb gofrestru fel canolfan eto, yna cysylltwch â'r adran Cefnogi Canolfannau yn CBAC canolfannau@CBAC.co.uk i gael ffurflen gais. Rhaid dychwelyd y ffurflen hon wedi'i llenwi i CBAC yn ddim llai na phum mis cyn y terfyn amser cofrestru perthnasol.

Rhaid i ganolfannau cymeradwy CBAC gadw at yr **Amodau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC a rheoliadau priodol y CGC**. Rhaid i bob canolfan gymeradwy CBAC sydd â Rhif Canolfan Cenedlaethol (NCN) gwblhau'r **datganiad blynyddol a anfonir gan NCN**. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at atal cofrestriad CBAC.

6.2 Dulliau Cofrestru

Bydd Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi ar gael i'w ardystio o fis Ionawr 2024.

Cofrestru ar gyfer unedau

Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer unedau unigol drwy gyflwyno'r codau uned perthnasol sydd i'w gweld ar bob uned sy'n rhan o'r fanyleb.

Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

Codau cofrestru

		Cod Cofrestru
Uned 1	Asesiad allanol	
Uned 2	Asesu Mewnol	
Uned 3	Asesu Mewnol	
Cod Cyfnewid		

7. Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl

Defnyddir graddfa o 8 pwynt i ddyfarnu Dyfarniadau Galwedigaethol: Lefel 2 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Teilyngdod, a Lefel 1 Llwyddiant. Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Cofnodir unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gan gyfateb i raddau fel a ganlyn:

Uned	Ucha fswm	Lefel 2				Lefel 1			
		D*	D	M	P	D*	D	M	P
Uned 1	120	108	96	84	72	60	48	36	24
Uned 2	75	68	60	53	45	38	30	23	15
Uned 3	105	95	84	74	63	53	42	32	21
Cymhwyster	300	270	240	210	180	150	120	90	60

8. Trefniadau ailsefyll

8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned(au) a asesir yn **fewnol** cyn ardystio ond ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Defnyddir y sgôr marc unffurf gorau o'r cynigion i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol** cyn ardystio; ond, mae gofyniad terfynol o 40% yn y cymhwyster hwn y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol. Felly, dim ond y sgôr marciau unffurf o'r ymgais yn y gyfres y mae'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster ynddi a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw hon yn is na'r ymgais blaenorol.

8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio

Gall ymgeiswyr sy'n anhapus â'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer y cymhwyster ddewis ailsefyll un neu fwy o unedau ar ôl ardystio.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol**, dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol. Nid oes angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned(au) a asesir yn **fewnol** gan y gellir trosglwyddo marciau'r uned a asesir yn fewnol am hyd oes y fanyleb.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned(au) a asesir yn **fewnol**, defnyddir yr uchaf o'r sgorau marciau unffurf naill ai o'r ymgais cychwynnol neu'r ymgais ailsefyll i gyfrifo'r radd gyffredinol. Hefyd, bydd angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol** i fodloni gofyniad rheol derfynol y cymhwyster. Dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol.

8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau

Ar ôl cyhoeddi canlyniadau pob cyfres arholiadau, mae CBAC yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar ôl y canlyniadau'n ymwneud ag adolygiadau o'r marcio a'r cymedroli a mynediad i sgriptiau arholiadau. Mae gwybodaeth am wasanaethau ar ôl y canlyniadau i'w gweld ar wefan Eduqas.

9. Camymddwyn

Mae gwybodaeth ynghylch Camymddwyn ar gael yn ein dogfen [Camymddwyn, Canllaw i Ganolfannau](#).

Rhaid rhoi gwybod i CBAC am bob achos o gamymddwyn honedig neu wirioneddol. Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y cânt eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC [Amau Camymddwyn: Polisiau a Gweithdrefnau](#).

9.1 Atal camymddwyn

Ni ddylai ymgeiswyr:

- gyflwyno gwaith heblaw eu gwaith hwy eu hunain
- darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd
- caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol
- cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith
- defnyddio llyfrau, y rhyngwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabod neu briodoli'r ffynonellau
- cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth
- cynnwys deunydd amhriodol, anwedus neu sarhaus.

Nid yw ymgeiswyr wedi'u gwahardd rhag benthgyl llyfrau neu adnoddau eraill i'w gilydd ond ni ddylent lèn-ladrata gwaith ymchwil ymgeiswyr eraill.

Ni ddylai ymgeiswyr roi eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylent fod yn ymwybodol o ddogfen y CGC Gwybodaeth i ymgeiswyr – Canllawiau wrth roi cyfeiriadau at arholiadau/asesiadau ar y Rhyngwyd – <http://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-malpractice>.

Rhaid i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n ymwneud â goruchwyllo'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu asesiad dan reolaeth yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn.

Rhaid atgoffa staff addysgu bod methu â rhoi gwybod am gyhuddiadau o gamymddwyn neu amheuan o gamymddwyn ei hun yn gamymddwyn.

Rhaid i staff addysgu:

- fod yn wiliadwrus o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol
- rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn wrth y tîm uwch arweinyddiaeth neu'n uniongyrchol i CBAC.